Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

## Gylch Meithrin Bysedd Bach

**Ysgol Gynradd Gymraeg Llwyncelyn**
**Heather Way**
**Llwyncelyn**
**Porth**
**CF39 9TT**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Bysedd Bach

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Bysedd Bach |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Ddim yn berthnasol |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Andrea Jones |
| Person â gofal | Andrea Jones, Hannah Davies |
| Nifer y lleoedd | 30 |
| Amrediad oedran y plant | 2 - 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 18 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 18 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Ddydd Iau rhwng 8:30yb a 15:30yp Dydd Gwener rhwng 8:30yb a 14:45yp |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac yn gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Dyma arolygiad cyntaf y lleoliad. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 16 Mawrth 2015 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 21/03/2023 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Rhagorol** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Datblygu cwestiynu agored yr ymarferwyr er mwyn ehangu medrau meddwl plant

A2 Sicrhau bod trefniadau asesu cychwynnol ar waith a'u bod yn cael eu defnyddio i lywio'r camau nesaf o ran cynnydd a dysgu plant

A3 Datblygu’r ddarpariaeth allanol ymhellach gan sicrhau bod gan blant fynediad annibynnol parhaus

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Rhagorol**

Mae bron bob plentyn yn hapus dros ben o fewn eu hamgylchedd dysgu a chwarae. Maent yn eithriadol o frwdfrydig ac yn ymhyfrydu yn yr ardaloedd chwarae a'r ddarpariaeth sydd ar gael iddynt. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymgartrefu'n syth wrth gyrraedd y lleoliad ac yn teimlo'n hynod o ddiogel yn eu hamgylchedd. Maent yn hyderus i rannu eu teimladau wrth bwyntio at wynebau ar y wal, a thrafod eu teimladau gydag ymarferwyr. Dangosant hoffter tuag at ymarferwyr, er enghraifft wrth redeg i mewn a'u cofleidio.

Mae bron bob plentyn yn symud o un ardal i'r llall yn llawn cyffro gan ddewis gweithgareddau sy'n eu sbarduno. Maent yn llawn cymhelliant wrth iddynt fynd ati i chwarae yn y siop ac yn dewis a dethol llysiau 'go iawn' ac offer i dorri llysiau i wneud cawl. Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyfathrebu eu dymuniadau a'u hoffterau yn hyderus, er enghraifft wrth ofyn i'r ymarferwyr i gael mynd tu allan i chwarae. Maent yn hunangofrestru gan roi llun bwyd o'u dewis ar y wal wrth ochr eu lluniau personol. Mae bron bob plentyn yn gwrando ar ac yn dilyn cyfarwyddiadau er mwyn bod yn ddiogel. Maent yn gwrando ar ymarferwyr sydd yn eu hannog i gerdded rhag iddyn nhw gwympo.

Mae bron bob plentyn yn rhyngweithio'n  arbennig o dda â'u cyfoedion a'u hymarferwyr. Maent yn datblygu perthynas garedig a pharchus tuag at eraill, er enghraifft wrth roi cymorth i ffrindiau pan fyddant yn chwilota am eu hesgidiau glaw. Maent yn frwdfrydig iawn wrth chwarae rôl ac yn rhyngweithio'n effeithiol iawn ag ymarferwyr wrth drafod enwau llysiau a ffrwythau. Mae bron bob plentyn yn cydweithio'n  arbennig o dda â phlant eraill gan rannu a chymryd tro yn amyneddgar.

Mae gan bron bob plentyn ymdeimlad cryf o berthyn. Maent yn ymfalchïo'n fawr yn eu lluniau teuluol yn yr ardaloedd cartref a darllen, ac yn frwdfrydig i ddangos ymarferwyr lle maent yn byw ar fap o'r ardal leol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn canolbwyntio am amser priodol, fel pan fyddant yn gwrando'n astud ar stori 'Y Lindysyn Llwglyd Iawn.' Mae bron bob plentyn yn ymfalchïo wrth dderbyn clod a chanmoliaeth gan ymarferwyr gan dderbyn sticeri sêr a 'ffrind da.'

Mae bron bob plentyn yn datblygu medrau annibynnol yn hynod o effeithiol. Maent yn arwain eu chwarae yn aeddfed gan ddewis adnoddau chwarae i gyflawni eu tasgau personol yn llwyddiannus. Maent yn canolbwyntio am amser cynyddol wrth wisgo sanau a rhoi gwisg ar ddoli. Mae'r rhan fwyaf o blant yn diwallu eu hanghenion personol yn annibynnol trwy dynnu a gwisgo cotiau, esgidiau glaw a golchi eu dwylo. Mae bron bob plentyn yn ymgymryd â thasgau dyddiol yn annibynnol, fel rhoi menyn ar dost, arllwys dŵr i gwpan neu laeth ar rawnfwydydd.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau yn llwyddiannus. Maent yn gwrando'n astud ac yn cyfathrebu'n fedrus wrth rannu syniadau, er enghraifft wrth drin doli sy'n sâl yn y feddygfa. Mae bron bob plentyn yn dangos dealltwriaeth gadarn o'r Gymraeg ac yn mwynhau ymuno â chaneuon Cymreig. Mae mwyafrif y plant yn

defnyddio geiriau ac ymadroddion yn ystyrlon mewn sgwrs. Mae bron bob plentyn yn pleidleisio dros eu hoff stori yn llwyddiannus. Maent yn mwynhau gwrando ar y stori neu'n ymgolli mewn stori yn annibynnol. Er enghraifft, maent yn efelychu profiadau personol o ddarllen stori i'r doliau cyn eu rhoi yn y gwely.

Mae bron bob plentyn yn datblygu medrau corfforol mân cadarn, ac yn gafael mewn offer marcio â rheolaeth dda iawn. O ganlyniad, maent yn hyderus wrth arbrofi â gwneud marciau bwriadus yn yr ardal farcio a chreu lluniau o aelodau'r teulu.

Mae bron bob plentyn yn datblygu medrau corfforol mawr o safon uchel iawn. Maent yn defnyddio offer yn hyderus a medrus iawn i archwilio'n gorfforol. Er enghraifft, maent yn gosod matiau meddal ar y llawr er mwyn ymarfer rholio ymlaen, cydbwyso ar un droed a neidio oddi ar focsys pren yn hollol annibynnol. Mae bron bob plentyn yn dringo llethr pren yn feistrolgar, er mwyn cyrraedd cwtsh tawel yn y llofft. Maent yn dangos dyfalbarhad a gwytnwch wrth lithro i lawr y llethr ar eu dwylo a'u traed yn hynod lwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau mathemategol cadarn ac yn defnyddio iaith fathemategol yn ddeallus yn eu chwarae. Er enghraifft, maent yn defnyddio geirfa 'llawn' a 'gwag' wrth lenwi poteli llaeth i'r doliau. Mae llawer o blant yn defnyddio a thrafod rhif yn bwrpasol ac maent yn ymuno'n llwyddiannus â rhigymau a chaneuon rhif.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn bwrpasol. Er enghraifft, maent yn defnyddio tafol ddigidol i wneud cacennau yn yr ardal chwarae rôl yn hyderus. Mae bron bob plentyn yn defnyddio ffôn yn hyderus i drefnu apwyntiad gyda'r meddyg.

Yn ystod chwarae ymchwiliol, mae llawer o blant yn datblygu eu medrau datrys problem yn dda iawn. Maent yn datblygu chwilfrydedd cryf am eu hamgylchedd, ac yn cwestiynu'n effeithiol wrth archwilio pa gar sy'n teithio orau i lawr tiwb cardfwrdd. Mae'r mwyafrif yn dyfalbarhau am amser hir, ac yn gwneud cysylltiadau gwerthfawr yn eu dysgu wrth newid uchder y tiwb. Maent yn canmol ei gilydd yn gadarnhaol wrth lwyddo.

Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau creadigol dychmygus yn effeithiol iawn, er enghraifft wrth deithio yn y car i fynd ar wyliau ac aros mewn gwesty. Mae'r rhan fwyaf o blant yn hyderus wrth ymateb a pherfformio yn greadigol drwy gerddoriaeth a dawns. Maent yn hyderus wrth archwilio deunyddiau crefft.

### Gofal a datblygiad: Da

Mae perthynas agos iawn rhwng yr ymarferwyr a'r plant. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn eu parchu. Mae'r holl ymarferwyr yn gadael i blant ddewis a dethol adnoddau ac ardaloedd chwarae o'u diddordeb ac yn ymateb i'w hanghenion ar bob cyfle. Mae pob ymarferydd yn fodel rôl arbennig. Maent yn siarad â'r plant yn addfwyn a chynnes ac yn eu hannog i drafod eu hemosiynau wrth bwyntio at y wynebau teimladau ar y wal. Mae pob ymarferydd yn diwallu anghenion y plant wrth gynllunio ardaloedd sydd yn bodloni eu diddordebau'n llwyddiannus. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn trafod lliwiau, enwau bwydydd a chymeriadau wrth drafod storïau a chwarae rôl gyda phlant. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol ac yn dathlu llwyddiannau'r plant yn gyson, fel rhoi clod wrth i blant ddod o hyd i degan meddal oedd ar goll, neu wrth arllwys diod eu hunain. Mae pob ymarferydd yn cynnig

cyfleoedd da i blant fod yn annibynnol, er enghraifft wrth ddewis adnoddau crefft i wneud llun ar thema'r Pasg.

Mae pob ymarferydd yn dangos cynhesrwydd a charedigrwydd tuag at y plant wrth iddynt gyrraedd yn y bore trwy gyfarch y plant yn hapus. Maent yn gyson a theg wrth reoli ymddygiad cadarnhaol. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn deall bod angen cerdded pan maent y tu mewn i'r adeilad. Maent yn siarad yn dawel gyda phlant am rannu adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn ymwybodol o'r fframwaith newydd ac yn hyderus i ddilyn y prosesau, fel y maent wedi'u hamlinellu ym mholisi'r lleoliad. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth da iawn o weithdrefnau amddiffyn plant ac maent yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Mae'r ymarferwyr yn cwblhau asesiadau risg effeithiol ac yn dilyn gweithdrefnau trylwyr i sicrhau goruchwyliaeth ofalus a diogelwch y plant. Maent yn hyrwyddo bwyta'n iach trwy ddarparu bwyd a diod maethlon. Mae'r ymarferwyr yn cadw cofnodion trylwyr o ddamweiniau a digwyddiadau gan gynnwys llofnodion ymarferwyr a rhieni. Mae'r rhan fwyaf o'r ymarferwyr wedi cael hyfforddiant cyfredol ar gyfer cymorth cyntaf pediatrig, diogelu a hylendid bwyd.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio ystod o brofiadau dysgu diddorol sy'n annog datblygiad cyfannol pob plentyn. Maent yn darparu cyfnodau hir o chwarae di-dor i blant archwilio eu syniadau, ac i ganolbwyntio am gyfnodau estynedig. Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant. Maent yn eu hadnabod yn dda iawn ac yn ymateb yn bositif i'w diddordebau personol. O ganlyniad, mae'r plant yn adeiladu ar eu gwybodaeth flaenorol yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn gosod disgwyliadau uchel ac yn datblygu cyfleoedd effeithiol i fagu annibyniaeth plant. Maent yn datblygu ffyrdd priodol o wneud arsylwadau defnyddiol am ddatblygiad y plant. Fodd bynnag, nid oes trefniadau ar waith ar gyfer asesu plant o fewn y chwe wythnos o'u derbyn i'r lleoliad. Maent yn parhau i fyfyrio ar ac addasu eu harfer mewn perthynas ag egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru.

Mae gan ymarferwyr berthynas arbennig iawn â'r plant. Maent yn cefnogi plant yn fedrus ac yn pwyso a mesur yn feistrolgar pryd a sut i ymyrryd, er mwyn cyfoethogi'r dysgu. Mae'r ymarferwyr yn holi plant yn addas er mwyn ehangu eu dealltwriaeth. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio cwestiynau penagored yn ddigonol er mwyn datblygu medrau meddwl y plant.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd diddorol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant drwy brofiadau bywyd go iawn. Er enghraifft, maent yn prynu nwyddau yn y siop ac yn eu defnyddio i wneud cawl yn yr ardal chwarae rôl. Mae ymarferwyr yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd i fodelu'r iaith Gymraeg yn effeithiol, drwy ganu bywiog a pharhaus i gyd-fynd â threfn ddyddiol y lleoliad.

Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau cynnar TGCh y plant yn dda. Maent yn cynnig cyfleoedd iddynt archwilio wrth ddefnyddio rhaglen gyfrifiadurol, ffôn a thafol ddigidol wrth chwarae rôl a defnydd o gamerâu bach. Mae ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol yn llwyddiannus. Maent yn dathlu gwyliau arbennig fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd ac yn hyrwyddo diwylliant Cymru'n dda.

Mae ymarferwyr yn cynllunio llawer o gyfleoedd ysgogol i alluogi'r plant i ddatblygu'n greadigol, ac yn parchu'r broses greadigol yn hytrach na chanolbwyntio ar y cynnyrch gorffenedig. Maent yn cynllunio cyfleoedd defnyddiol i alluogi'r plant i ddatrys problemau fel dewis a dethol blociau addas i greu adeiladau a'u hatal rhag cwympo.

Un o gryfderau'r ymarferwyr yw cynllunio cyfleoedd hynod werthfawr a naturiol iawn i blant ddatblygu eu medrau corfforol mawr. O ganlyniad, mae'r plant yn hyderus iawn i wynebu unrhyw her gorfforol fel neidio dros focsys pren ynghanol y llawr, dringo llethrau yn yr ardal allanol a rholio ymlaen ar fatiau meddal.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd croesawgar a diogel sy'n sbarduno chwarae plant yn effeithiol. Mae'r ardaloedd dysgu a chwarae yn ennyn diddordebau'r plant ac yn eu galluogi i archwilio'n bwrpasol. Mae'r arweinwyr yn darparu ardal allanol sy'n cynnig profiadau addas er mwyn datblygu medrau corfforol a chwarae dychmygus.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn creu ymdeimlad cryf o berthyn i'r plant. Er enghraifft, maent yn darparu arddangosfeydd o ffotograffau'r plant yn ymgymryd â gweithgareddau a gwaith celf a chrefft. Ceir dewis eang o adnoddau pwrpasol o fewn cyrraedd y plant sy'n eu sbarduno ac yn ennyn eu diddordebau personol. Maent yn gosod labeli Cymraeg ar y wal ac ar adnoddau chwarae er mwyn galluogi plant i'w dewis a'u dethol eu hunain.

Mae'r amgylchedd yn hybu datblygiad cymdeithasol yn effeithiol. Mae modd i blant ymgynnull ar gyfer amser bwyd ar gelfi sydd yn addas i'w hoedrannau. Mae arweinwyr yn sicrhau bod preifatrwydd y plant yn cael ei barchu'n llwyddiannus wrth ddefnyddio cyfleusterau tai bach a newid cewynnau. Mae arweinwyr yn trefnu ardal allanol addas, sy'n rhoi cyfleoedd i blant ddatblygu'n gorfforol. Mae cyfleoedd iddynt fod yn greadigol trwy chwarae â thywod a chegin fwd gydag adnoddau ac offer addas. Er hyn, prin oedd yr adnoddau a'r cyfleoedd ar gyfer chwarae rhydd di-dor o'r ardal fewnol i'r ardal allanol er mwyn datblygu chwilfrydedd ac ehangu profiadau dysgu'r plant. Mae cyfleoedd arbennig o dda i blant gael amser tawel. Darperir cyfleoedd priodol sy'n datblygu eu dealltwriaeth o ddiwylliannau eraill, er enghraifft storïau ac adnoddau chwarae yn cynnwys pypedau a doliau. Mae cyflenwad arbennig o dda o adnoddau ar gael i blant er mwyn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn darparu cyfleoedd i farcio, ystod eang o offer dringo a chydbwyso, chwarae byd bach, chwarae rôl a dewis da o adnoddau naturiol, 'go iawn' a rhai sy'n ennyn chwilfrydedd y plant.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir i ddarparu lleoliad cynhwysol lle mae pob un yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi'n fawr. Mae arweinwyr yn rheoli'r lleoliad yn dda ac yn creu awyrgylch deuluol, gref. Maent yn canmol ymarferwyr yn effeithiol, ac yn dangos eu gwerthfawrogiad drwy ddefnydd o sylwadau personol ar arddangosfa arfer dda. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn cyfrannu'n effeithiol at wella'r amgylchedd ddysgu a phrofiadau sy'n ennyn diddordeb y plant.

Mae gan arweinwyr weithdrefnau hunanwerthuso cadarn. Gwneir defnydd effeithiol o'r cynllun datblygu er mwyn ymateb i flaenoriaethau, ac maent yn gwerthuso cynnydd yn rheolaidd. Er enghraifft, mae'r lleoliad wedi creu ardal arbennig a thawel

i’r ymarferwyr. O ganlyniad, mae eu lles yn dda ac yn cael effaith bositif iawn ar les a medrau’r plant. Mae arweinwyr yn cynnwys cyfraniad yr holl ymarferwyr yn y broses gynllunio i wella medrau plant, trwy gynnig profiadau difyr o fewn awyrgylch Gymreig.

Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel o’u hunain a’r ymarferwyr ac maent yn cydweithio’n effeithiol iawn â'i gilydd i sicrhau gwelliannau ar draws y lleoliad. O ganlyniad, mae’r lleoliad yn cydymffurfio â rheoliadau ac yn bodloni'r safonau gofynnol cenedlaethol.  Mae arweinwyr yn dilyn proses recriwtio gadarn ac yn sicrhau bod yr holl wiriadau angenrheidiol wedi’u cwblhau ar yr ymarferwyr i gyd. Maent yn sicrhau bod gan ymarferwyr gymwysterau perthnasol ac maent yn cefnogi’r ymarferwyr i gyflawni eu rolau yn fedrus. Mae arweinwyr yn dilyn trefniadau effeithiol i oruchwylio a monitro ymarferwyr yn rheolaidd. Maent yn sicrhau hyfforddiant perthnasol yn ôl yr angen. Er enghraifft, trefnwyd hyfforddiant trochi iaith i gefnogi medrau Cymraeg yr holl dîm. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau Cymraeg y plant. Mae'r lleoliad yn rheoli cyllid a defnydd o grantiau yn effeithiol i ddechrau datblygu’r ardal allanol.

Mae gan y lleoliad berthynas gwerthfawr â phartneriaethau amrywiol sydd yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a safonau plant. Maent yn ystyried barnau pawb ac yn cynnal trafodaethau ystyrlon â rhieni, yr awdurdod lleol a mudiadau cefnogi. Maent yn cydweithio’n arbennig â rhieni i nodi anghenion a hoffterau unigol eu plant. Mae bron pob rhiant yn hapus iawn â'r ddarpariaeth a'r gofal a gaiff eu plant yn y lleoliad.

Mae gan y lleoliad berthynas agos iawn â’r ysgol leol. Mae plant yn ymweld â’r ysgol gyda’r person â gofal cyn cychwyn, ac mae’r athrawes ddosbarth yn ymweld â’r lleoliad yn fisol. Mae hyn yn gryfder ac yn sicrhau bod lles y plant yn flaenoriaeth gan bawb. O ganlyniad, mae’r plant yn hyderus iawn i drosglwyddo i’r ysgol ar gyfer cam nesaf eu haddysg.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 26/05/2023

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 26 Mai 2023